




ATHROFA PADARN SANT  
ST PADARN'S INSTITUTE



# ADRODDIAD BLYNYDDOL

MEDI 2019 - AWST 2020



# TABL Y CYNNWYS

Rhagair gan yr Archesgob .....	3
Cyflwyniad gan y Pennaeth .....	3
Trefniadau Llywodraethu a Goruchwyllo .....	4
Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig .....	4
B.Th. mewn Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth (Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd).....	5
Gweinidogion Trwyddedig Newydd.....	6
Parhau i Ddatblygu'r Weinidogaeth.....	7
Cymorth Digidol ac Ar-lein .....	7
Adolygiad o Ddatblygiad Gweinidogion (MDR) .....	7
Digwyddiadau Bywyd .....	8
Y Weinidogaeth Darllenwyr a Gweinidogion Lleyg Trwyddedig eraill .....	8
Cyfeiriad Ysbrydol .....	8
Cofrestru Priodasau .....	8
Edrych Tua'r Dyfodol .....	8
Adnoddau i Feithrin Disgyblion .....	9
Dysgu i Dyfu .....	9
Byw Fel yr Iesu .....	9
Llyfrynnau Gweinidogaeth .....	9
<b>2</b> Adnoddau Dysgu .....	9
Symud mewn Cyfeiriad Digidol .....	9
Archwiliad o Adnoddau Digidol a Ffisegol .....	9
Rhwydweithiau Cenedlaethol .....	10
Y Rhwydwaith Arloesi .....	10
Rhwydwaith Gweithwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.....	11
Rhwydwaith Cenhadaeth Cyfrwng Cymraeg.....	11
Rhaglenni Ôl-raddedig ac Ymchwil.....	12
M.Th. Caplaniaeth .....	12
M.Th. Diwinyddiaeth.....	12
M.Th. Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.....	13
Ymchwil.....	13
Hyfforddiant Diogelu.....	14
Polisiau Gweindogaeth a Datblygiadau.....	14
Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithrediadau .....	15
Staffio.....	15
Incwm a Gwariant.....	15
I mewn i 2020-2021 .....	16

# Rhagair gan yr Archesgob



Rwy wrth fy modd i allu cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Athrofa Padarn Sant ar gyfer y flwyddyn 2019/20.

Drwy gydol yr adroddiad, byddwch yn medru gweld yn syth, daith barhaus Athrofa Padarn Sant wrth iddi weithio i gyflawni'r rôl a disgwylir ohoni, fel Athrofa Ddiwinyddol i'r Eglwys yng Nghymru. Ac i'r diben hwn, mae'n gweithio'n gyson i fod yn ffynhonnell hyfforddiant i bobl wrth iddynt gael eu galw i nifer gynyddol ac amrywiol o weinidogaethau, i wasanaethu Duw a'i Eglwys, yng Nghymru, a thu hwnt.

O dan oruchwyliaeth Mainc yr Esgobion, a'r Pwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygu'r Weinidogaeth, y Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, rwy'n ffyddiog y bydd bywyd yr Athrofa yn parhau i dyfu o ran nerth, profiad ac ymrwymiad i'r dasg mewn llaw.

Drwy gymeradwyo'r Adroddiad hwn, rwyf hefyd yn rhoi diolch i'r Pennaeth a'r holl staff am eu gwaith. Rwy'n cydnabod bod yr adroddiad hwn yn trafod blwyddyn academiaidd, blwyddyn sydd wedi gweld cryn newid i'r patrwm arferol oherwydd pandemig COVID-19. Rwy'n rhoi cydnabyddiaeth arbennig i'r ymdrechion a wnaed gan staff i sicrhau bod hyfforddiant wedi medru parhau, er yr amhariaeth ac er y cyfyngiadau sylweddol arnyn nhw a'u myfyrwyr.

**Y Parchedcaf John Davies,**  
Archesgob Cymru

# Cyflwyniad gan y Pennaeth




Wel dyna flwyddyn fuodd hi! Ynghyd â gweddill cymdeithas mae'n anodd edrych yn ôl ar flwyddyn academiaidd 2019/20 a pheidio â siarad dim ond am bandemig COVID-19, er mai dim ond hanner ffordd drwy'r flwyddyn y gwnaeth y bandemig daro.

Mae cymaint o amrywiaeth yng ngwaith Athrofa Padarn Sant, wrth iddi gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, fel ei bod yn anodd ei grynhoi yma. Os darllenwch chi'r adroddiad, fe gewch ymdeimlad ag ehangder y cyfraniad hwnnw, y mae'r cyfan ohonon cael ei ddwyn ynghyd yn ein gweledigaeth ar gyfer "ffuriant a hyfforddiant eithriadol wedi'u seilio ar genhadu i holl bobl Duw". Mae hyn yn parhau i fod yn waith parhaus, wrth i'r athrofa wella, ac wrth i anghenion yr Eglwys newid. Yn wir, fe ddywedodd yr Archesgob

yn ei anerchiad llywyddol gerbron cyfarfod ar-lein y corff llywodraethu ym mis Medi 2020, fod amgylchiadau COVID-19 bellach yn gorfodi'r Eglwys i wneud y pethau newydd yr oeddem wedi gobeithio amdanynt, ond yr oeddem weithiau wedi bod heb yr ysgogiad i'w cyflawni, ond bellach yn magu hyder yn ein 'gallu i wneud'. Mae hyfforddiant a datblygiad trwy ddiffiniad, wastad yn ymwneud â'r dyfodol. Wrth i'r cyfleoedd a'r heriau i'r Eglwys newid yn gyflym, mae angen i Athrofa Padarn Sant aros 'ar y droed flaen', gan ddwyn cyfoeth yr ysgrythur a thraddodiad yr eglwys, a hefyd amrywiaeth doethineb a phrofiadau dynol, i realiti cenhadaeth a gweinidogaeth yma yng Nghymru heddiw ac yfory.

Mae'n bosib y gellir esgeuluso un nodwedd arbennig wrth drwytho'r tudalennau hyn, sef buddsoddiad mewn amser ag egni i gael pethau'n iawn o ran sicrhau gweithrediad esmwyth, i safonau proffesiynol, Athrofa Padarn Sant fel cymuned ddysgu a darparwr Addysg Uwch. Penllanw hyn oedd ein harolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y sefydliad a gomisiynir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau bod ansawdd Addysg Uwch yn cyrraedd ei safonau. (I fod yn glir, nid ein bod yn derbyn unrhyw gyllid gan y Cyngor Cyllido, ond dyna'r corff y mae Llywodraeth Cymru wedi dirprwyo cyfrifoldeb iddo am oruchwyllo safonau mewn Addysg Uwch yng Nghymru.). Cawsom lwyddiant ysgubol yn yr arolygiad hwnnw, a gadarnhaodd fod y safonau academiaidd a phrofiad myfyrwyr yn Athrofa Padarn Sant o leiaf yn gyson â



darparwr Addysg Uwch (prifysgol) eraill. Mae'r acolâd yn beth da, ac yn anogaeth go iawn i staff diwyd, ond mae'n bwysig gan mwyaf am bod pob dysgwr yn bwysig, a bod angen i fuddsoddiad yr Eglwys yn y dyfodol, trwy ariannu Athrofa Padarn Sant, gael ei reoli'n broffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dysgwyr a'r dysgu, ond mae'n bwysig bod yr Eglwys yn cael sicrhau bod pawb sy'n ymgysylltu â Phadarn Sant, ac yn dysgu ym mha bynnag modd yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen ac sydd hefyd yn ateb gofynion uchel safonol asesu allanol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn eich hysbysu, yn eich annog, ac yn ysgogi'r rhyngweithio pellach sy'n helpu Athrofa Padarn Sant i ddal i fod yn gwbl gydnaws â'r Eglwys y mae'n ei gwasanaethu.

**Y Parch. Athro Jeremy Duff,**  
Pennaeth

# Trefniadau Llywodraethu a Goruchwylio

Mae trefniadau llywodraethu a goruchwylio cryf a chllir yn hanfodol i iechyd Athrofa Padarn Sant, ac i sicrhau ei bod yn gwbl gydnaws ag anghenion yr Eglwys.

Sylfaen hyn yw atebolrwydd i Fainc yr Esgobion a'r Corff Cynrychiolwyr. Ein hesgobion sy'n rhoi'r cyfeiriad strategol: mae'r Pennaeth yn cwrdd dair neu bedair gwaith y flwyddyn â'r Fainc, ac yn cwrdd â phob esgob yn unigol ddwywaith y flwyddyn. Y Corff Cynrychiolwyr sy'n gyfrifol am weithrediad Athrofa Padarn Sant. Mae ei chyllid yn rhan integredig o gyllid y Corff Cynrychiolwyr; mae'r Corff Cynrychiolwyr yn cymeradwyo'i chynllun busnes a'i chyllidebau. Mae holl staff Athrofa Padarn Sant yn gyflogaion i'r Corff Cynrychiolwyr.

Eleni, serch hynny, fe welwyd datblygiadau a gwelliannau yn ein strwythurau ar gyfer llywodraethu a goruchwylio. Yn rhannol fe ysgogwyd hyn gan ein hadolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sydd ei hun yn rhan o'r oruchwyliaeth ar Athrofa Padarn Sant gan Gyngor Cylido Addysg Uwch Cymru. Wrth baratoi ar gyfer hyn fe wnaethom sylweddoli y gallai rhai o'r

strwythurau a rhoddwyd mewn lle pan sefydlwyd Athrofa Padarn Sant fod yn aneglur neu ymddangos yn ddrislyd y tu allan i'r Eglwys. Yn rhannol, mater o ddysgu o brofiad oedd hyn; roeddem bellach yn gliriach o ran y trefniadau llywodraethu yr oedd eu hangen, a beth oedd y ffordd orau i'r oruchwyliaeth gan y Corff Cynrychiolwyr weithio.

Felly fe ddatblygodd cyn Gyngor Athrofa Padarn Sant yn Bwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygu'r Weinidogaeth newydd y Corff Cynrychiolwyr. Mae hyn yn gwneud yr agweddau cyfreithiol yn gadarn, gan osgoi rhoi'r argraff bod Cyngor Athrofa Padarn Sant yn gyfreithiol yn gorff llywodraethu / ymddiriedolaeth elusenol pan nad oedd. Roedd hefyd yn ei gwneud yn fwy eglur nad obsesu ag Athrofa Padarn Sant yw diben y corff, ond yn hytrach diwallu anghenion hyfforddiant, ffuriant a Gweinidogol yr Eglwys. Efallai fod Athrofa Padarn Sant yn ganolog i hyn, ond mae mwy i fywyd nag Athrofa Padarn Sant! Daeth yr Archesgob fel yr esgob sydd hefyd yn un o ymddiriedolwyr y Corff Cynrychiolwyr yn

Gadeirydd. Cryfhawyd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gan ychwanegiad yr Esgob Cherry Vann yn ei rôl fel Esgob y Weinidogaeth, a dau aelod allanol a benodwyd oherwydd eu harbenigedd penodol – y Parch. Ddr. Stephen Roberts, y Tiwtor mewn Diwinyddiaeth Ymarferol a Chenhadaeth â Choleg y Bedyddwyr De Cymru, a'r Parch. Ddr. Paul Roberts, Tiwtor mewn Addoli Cristnogol a Hanes yr Eglwys yng Ngholeg y Drindod Bryste.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu 'Bwrdd Gweithredol' newydd, sef cyfarfod misol Prif Weithredwr y Corff Cynrychiolwyr gyda'r Uwch Dîm Arwain yn Athrofa Padarn Sant. Mae hyn wedi sicrhau bod y Prif Weithredwr yn dal i feddu ar wybodaeth lawn am bopeth y mae Athrofa Padarn Sant yn canlyn arni ag ef, a'r hyn y mae'n ei gyflawni ar ran yr Eglwys, ac mae'n sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn gweithio'n esmwyth fel rhan unigryw, ond integredig, o waith y Corff Cynrychiolwyr i gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru.

4

## Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig


O fis Medi 2019 tan fis Awst 2020 roedd 31 o ymgeiswyr llawn-amser a 38 o ymgeiswyr rhan-amser yn paratoi ar gyfer gweinidogaethau lleig ac ordeiniedig. Mae ffuriant integredig yn graidd i ddull hyfforddi Athrofa Padarn Sant. Mae'r holl ymgeiswyr, yn rhai llawn-amser a rhan-amser, mewn celloedd ffurfiannol, lle maent yn myfyrio gyda'i gilydd ynghylch integreiddio eu holl brofiadau hyfforddi (academaidd, bugeiliol, litwrgaidd, cenhadol a.y.b.). Gwelwyd integreiddio hefyd yn yr agweddau niferus ar ddysgu sy'n digwydd ar hyd a lled y gweinidogaethau, wrth i unigolion baratoi i hyfforddi ar gyfer eu gweinidogaeth benodol, gan bod angen i bawb sy'n ymuno â'r weinidogaeth ddatblygu sgiliau ar y cyd a pharch rhwng y ddwy ochr o'r dechrau. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth gyflogedig yn dilyn y rhaglen gyd-destunol integredig llawn-amser, lle mae ymgeiswyr yn mynychu Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd o ddydd Mercher i ddydd Gwener, ac yn cwblhau lleoliad hirdymor am ddau ddiwrnod yr wythnos, naill ai yn ardal Caerdydd neu yn eu hardal gartref, a all fod unrhyw le yng Nghymru. Yn ystod y rhaglenni o

ddydd Mercher tan ddydd Gwener, mae'r ymgeiswyr yn cwrdd ar gyfer sesiynau addysgu, addoli, prydau bwyd, sesiynau ymarfer Cymraeg, dysgu iaith Feilblaid a chelloedd ffurfiannol. Mae pawb yn cymryd rhan mewn sesiynau dysgu diwinyddol heriol, ond caiff yr addysg hon ei theilwra ar gyfer gwahanol lefelau a


mannau cychwyn - o dystysgrif israddedig mewn diwinyddiaeth i lefel Doethuriaeth.

Dyma oedd y patrwm nes i'r pandemig daro ym mis Mawrth a thros wyliau'r Pasg; fe symudon ni'r ddarpariaeth llawn-amser ar-lein yn llwyr, gan ddefnyddio cyfuniad o blatfformau fideo i addysgu (Zoom ac MS Teams yn bennaf). Yn gyflym iawn fe

### Dadansoddiad o Ymgeiswyr Gwrywaidd / Benywaidd yn Hyfforddi ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig / Ordeiniedig



## Proffil Oedran yr Holl Ymgeiswyr



fewnbnw ac ymarfer ysbrydol yn golygu bod yr ymgeiswyr wedi cael yr ysgol haf yn brofiad gwefreiddiol. Fe ail-luniwyd cyfnodau preswyl hefyd i weithio ar Zoom yn ystod yr amser hwn, gan gynnig rhagor o ddeunyddiau i ymgeiswyr eu darllen yn eu hamser eu hunain a defnydd o fforymau i leihau 'syrffed ar Zoom'. Themâu'r cyfnodau preswyl oedd Gobaith Cristnogol (Hydref), Cynnal Gweinidogaeth Ffrwythlon (Chwefror) ac Achubiaeth (Mai – ar-lein).

Eleni cafodd yr holl ymgeiswyr, rhai rhan-amser a llawn-amser, gynnig y cyfle i ddysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg ar y cwrs Say Something in Welsh, ac mae ymgeiswyr llawn-amser hefyd yn cael sesiwn hanner awr wythnosol (Tê Bach) lle maent yn ymarfer Cymraeg litwrgaidd, sgwrsio yn Gymraeg, ac yn clywed siaradwyr ar bob agwedd ar fywyd, diwylliant a ffydd yng Nghymru.

Cynigiwyd hyfforddiant llais i ymgeiswyr llawn-amser a rhan-amser, ac fe deithiodd tri ymgeisydd llawn-amser ym mis Chwefror gyda'r Parch. Chris Burr a thîm o eglwysi lleol i Uganda.

Un maes sydd wedi datblygu eleni yw gwaith gyda gwŷr a gwragedd ac mae Mrs Wendy Matthews, therapydd iechyd galwedigaethol wedi ymddeol sydd ei hun yn wraig i weinidog wedi ymgymryd â rôl caplan gwirfoddol i wŷr a gwragedd, gyda Mrs Krisi Hillebert yn cydlynw'r maes hwn.

ddysgodd y tiwtoriaid sgiliau o ran sut i hybu dysgu mewn grŵp a dysgu cyfranogol trwy'r technolegau anghyfarwydd hyn, ffyrdd o weithio sydd bellach i'w gweld yn gyfarwydd iawn i ni. Fe grëwyd capel rhithiol lle'r oedd ymgeiswyr yn rhannu adnoddau, gwasanaethau a fideos yn ogystal â fforwm gweddi fel bod ymgeiswyr yn gallu parhau i addoli gyda'i gilydd yn ystod y rhaglen o ddydd Mercher i ddydd Gwener.

O ystyried bod yr esgobaethau'n amrywio o un flwyddyn i'r llall o ran niferoedd yr ymgeiswyr a anfonir ganddynt, cyflwynwyd system tiwtoriaid 'ffurfiannol' yn hytrach na system tiwtoriaid esgobaethol a bellach mae gan bob ymgeisydd un tiwtor y maent yn ymwneud â hwy ar gyfer eu ffurfiant a'u trefn adrodd. Fe wnaed ymgais bwriadol i gynyddu amser tiwtoriaid gydag ymgeiswyr er mwyn sicrhau cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn.

Fe arhosodd ymgeiswyr yn eu celloedd ffurfiannol a barhaodd i gwrdd ar-lein. Fe ychwanegwyd ardal lleoliad at yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) lle'r oedd tasgau lleoliad yn cael eu gosod i ymgeiswyr os nad oeddent yn gallu gweinidogaethu

ar eu lleoliadau. Fodd bynnag, nifer fach iawn a ddefnyddiodd y ddarpariaeth hon – canfuom fod llawer o eglwysi wedi ffynnu o ran gweithgarwch rhithiol a gofal bugeiliol ac roedd ymgeiswyr yn ganolog i nifer o fentrau cyffrous a alluogodd yr eglwys i weithredu'n wahanol.

Canolbwyntiodd Ysgol Haf 2020 ar ysbrydolrwydd, a drosglwyddodd yn effeithiol ar-lein. Roedd y gwerthusiadau'n gadarnhaol. Roedd y cymysgedd o



## B.Th. mewn Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth (Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd)


O ran y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019 roedd gennym gyfanswm o 222 o fyfyrwyr yn astudio ar ein B.Th. ar gyfer achrediad. Yn ystod y flwyddyn hon digwyddodd gwaith datblygu ar ein hadnoddau ar-lein a'n darpariaeth e-lyfrau, yn ogystal â threialu rhai grwpiau ar-lein. Roedd y mentrau hyn

yn golygu bod y cwrs mewn sefyllfa dda i symud ar-lein yn gyfan gwbl pan drawodd y pandemig. Roedd Athrofa Padarn Sant yn y broses o gael arolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ar gyfer Addysg Uwch) pan gyflwynwyd cyfyngiadau symud yn y DU. Canfu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fod

ganddynt hyder mewn safonau academiaidd ac yn ansawdd profiad myfyrwyr.

Cafodd modiwlau rhan-amser eu hail-ddylunio i'w darparu ar-lein yn llwyr ar ein Hamgylchedd Dysgu Rhithwir, gan ddefnyddio cyfuniad o fideos byrion,

## Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd



fforymau, taflenni gwaith yn ogystal â'r deunyddiau a'r gwaith darllen arferol ar gyfer dysgu o bell. Er ein bod wedi cynnig y cyfleuster i fyfyrwyr barhau i ddilyn y cwrs yn unigol, fe ddewisodd y rhan fwyaf o fyfyrwyr barhau â'u grwpiau dysgu a chwrdd ar-lein, ac mae hyn wedi parhau. Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn cynnal nifer o grwpiau dysgu wedi'u hwyluso ar-lein, hyd yn oed pan fydd cyfyngiadau Covid wedi dod i ben.

Fe gynhaliodd ni ein diwrnod seminar cyfan gwbl ar-lein cyntaf ar Zoom ar ddydd Sadwrn 25 Ebrill a daeth 71 o bobl i sesiwn y bore a 63 o bobl i sesiwn y prynhawn. Cyfuniad o ddarlith / mewnbwn a grwpiau trafod ydoedd. Roedd yr ymateb yn

gadarnhaol iawn, ac o ganlyniad, ar ôl ymgynghori'n ffurfiol â'r myfyrwyr dros yr haf rydym wedi penderfynu rhedeg y diwrnod seminar rhagarweiniol ar gyfer pob modiwl ar Zoom fel bod pob myfyriwr yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol ag arweinydd y modiwl, a chynyddu ein darpariaeth ac adnoddau ar-lein.

Er mai'r flwyddyn academaidd hon oedd blwyddyn olaf yr hen gwricwlwm, fe gyflwynwyd modiwlau newydd – Ymgysylltu Diwinyddiaeth a Diwylliant Cyfoes ac Ymgysylltu Apologeteg a Gwyddoniaeth. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, fe ddarparwyd modiwlau Lefel 6 ar Zoom ar nosweithiau lau ac mae hyn yn rhywbeth a

fydd yn parhau wedi i gyfyngiadau Covid ddod i ben er mwyn gwneud y B.Th. yn hygyr i bobl o bob rhan o Gymru.

Un gwahaniaeth a ddaeth i'r amlwg eleni oedd rhoi rôl gryfach i arweinwyr modiwlau, sy'n arbenigwyr ac yn nodweddiadol yn meddu ar ddoethuriaeth yn eu meysydd pwnc. Hwyl fydd wastad yn arwain diwrnod seminar rhagarweiniol y modiwl a byddant ar gael i ateb ymholiadau myfyrwyr trwy fforymau ar-lein. Yn awr mae ganddynt fwy o ryddid i ddatblygu adnoddau a dulliau addysgu gwahanol sy'n briodol o fewn y maes pwnc arbennig hwnnw. Mae Meithrin Disgyblion, Cenhadaeth a Gweinidogaeth yn cwmpasu ystod eang o destunau a disgyblaethau ac mae'r rhyddid pwnc-benodol hwn o ran sut y mae'r broses ddysgu'n gweithio'n agor y drws i welliannau pellach.

6

## Gweinidogion Trwyddedig Newydd

Mae parhau i gefnogi a datblygu'r holl weinidogion trwyddedig (yn rhai lle neu ordeiniedig) yn eu blynyddoedd cyntaf yn y weinidogaeth o bwys mawr. Y blynyddoedd cynnar yn y weinidogaeth yw lle mae Gweinidogion Trwyddedig Newydd yn sefydlu patrymau gweddio da, yn parhau i dyfu fel disgyblion ac arweinwyr, ac yn ymrwymo i ddysgu gydol oes. Cydymdrech yw hon - gyda'r goruchwylydd hyfforddiant, yr esgobaeth ac Athrofa Padarn Sant i gyd yn gwneud cyfraniad unigryw. Yn 2020, cafodd 45 o bobl eu trwyddedu fel gweinidogion yr Eglwys yng Nghymru (cafodd 3 eu trwyddedu fel gweinidogion lleig a chafodd 42 eu hordeinio).

Mae rôl Athrofa Padarn Sant yn cynnwys sicrhau bod Gweinidogion Trwyddedig Newydd a'u goruchwylwyr wedi'u galluogi mewn modd addas ar gyfer y cam pwysig hwn yn eu hyfforddiant. Mae hyn yn golygu trefnu diwrnodau hyfforddi ar gyfer goruchwylwyr gan sicrhau bod Cytundebau Dysgu'n cael eu negodi a'u cytuno, a bod mynediad at y rhestr gwirio cymhwysedd a phrotocolau adrodd ar gyfer Gweinidogion

Trwyddedig Newydd. Yn ogystal mae gennym ddyletswydd o ofal a chefnogaeth gyffredinol tuag at Weinidogion Trwyddedig Newydd a Goruchwylwyr yn ôl yr angen. Mae Athrofa Padarn Sant hefyd yn chwarae rhan i helpu nifer cynyddol y Gweinidogion Trwyddedig Newydd nad ydynt wedi cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol yng Nghymru, i ymaddasu i ddiwylliant a phatrwm hyfforddiant a datblygiad yr Eglwys yng Nghymru.


Mae Athrofa Padarn Sant hefyd yn darparu cyfres o gyrsgau hyfforddi preswyl o ansawdd uchel, gan ddod â'r holl weinidogion trwyddedig newydd ar hyd a lled yr Eglwys yng Nghymru at ei gilydd. Mae'r rhain yn darparu lle i'r Gweinidogion Trwyddedig Newydd gamu yn ôl o'u sefyllfa o ddydd i ddydd, a cwrdd ag eraill ar hyd a lled yr Eglwys, ac ymgysylltu ag ystod eang o siaradwyr gyda ffocws ar eu hanghenion penodol.

Datblygwyd y rhaglen hyfforddi yn 2018 i sicrhau ei bod yn darparu rhaglen sy'n cynorthwyo'r holl weinidogion wrth iddynt ddatblygu'n gynrychiolwyr effeithiol Eglwys Dduw yn yr 21ain Ganrif. Erbyn mis Awst

2020 roedd wedi cael ei mireinio a'i sefydlu'n batrwm rheolaidd o hyfforddiant effeithiol.

Dros 2019-20, fe ddechreuodd y rhai a ordeiniwyd a/neu a drwyddedigwyd yn 2020 eu hyfforddiant, trwy fynychu cwrs Trafodaethau Trawsnewidiol gyda'u goruchwyllydd. Fe hwyluswyd y cwrs gan 3D Coaching. Fe wnaeth y rhai a

## Gweinidogion Trwyddedig Newydd





ordeiniwyd/a drwyddedwyd yn 2019 fynychu'r ail o'r sesiynau 3D Coaching. I ddilyn hyn darparwyd hyfforddiant mewn gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (gan gynnwys gweinidogaeth

ysgolion), a phenwythnos ar Ddod yn Offeiriad yn Eglwys Dduw a Thrawsnewid Gwrthdaro'r Eglwys. Fe ychwanegwyd bloc terfynol y rhaglen newydd yn 2020 gyda'r Cyfnod Pontio ar gyfer y gweinidogion

cyflogedig a ordeiniwyd yn 2018. Mae'r cwrs hwn wedi'i fwriadu i ddarparu elfennau allweddol o ddatblygu arweinyddiaeth gan fwrw golwg ar ddiwylliant, strwythur, meithrin timau, prosiectau efengylaidd ac ati ac mae'n rhoi lefel uwch o gefnogaeth i weinidogion wrth iddynt symud i mewn i swyddi â chyfrifoldeb cyffredinol.

Mae'r Cyfnod Hyfforddiant Craidd ar gyfer Gweinidogion Trwyddedig Newydd yn ddwy flynedd o hyd ac fe'i dilynir gan bawb sydd wedi'u trwyddedu o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Cyfnod Pontio yn ddwy flynedd arall, y bwriedir iddynt rychwantu'r cyfnod pontio o guradiaeth i swydd â chyfrifoldeb cyntaf. Ar y cyfan, yn ystod y cyfnod hwn, roedd 9 o gyrsiau preswyl, mewn 4 lleoliad ledled Cymru a'r rheiny'n cynnwys ychydig dros 108 o Weinidogion Trwyddedig Newydd. Cyfyngwyd ar nifer y lleoliadau allanol oherwydd y pandemig, felly fe symudwyd nifer o'n digwyddiadau hyfforddi a oedd wedi'u trefnu i blatfform fideo Zoom.

## Parhau i Ddatblygu'r Weinidogaeth

**Unwaith y mae ymgeiswyr wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiannol fel gweinidogion lleyg trwyddedig neu weinidogion ordeiniedig (Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a Gweinidogion Trwyddedig Newydd) fe'u hanogir i ymgymryd â diwylliant o ddysgu gydol oes. Mae Athrofa Padarn Sant yn cydweithio'n agos gyda chwe esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru i ddarparu rhaglen Datblygu Gweinidogion yn Barhaus, sy'n cynnwys dwy elfen:**

- Mae Athrofa Padarn Sant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hyfforddiant taleithiol, neu hyfforddiant sy'n gyffredin ar hyd a lled yr holl esgobaethau. Byddai enghraifft o hyn yn cynnwys cynnal cwrs cyn ymddeol i'r rhai a fyddai'n hoffi cymorth a chynghor wrth gynllunio ar gyfer ymddeol.
- Mae esgobaethau'n cynnig 4 diwrnod ychwanegol o Ddatblygiad Parhaus i Weinidogion y flwyddyn ar gyfer eu gweinidogion sy'n adlewyrchu eu cyd-destunau, eu hanghenion a'u gwledigaethau unigol orau.

### CYMORTH DIGIDOL AC AR-LEIN

Mae COVID 19 wedi cael effaith sylweddol ar y modd y mae'r rhaglen Datblygu Gweinidogion yn Barhaus wedi cael ei

chynnig a'i darparu gyda nifer o fentrau a digwyddiadau a gynlluniwyd wedi gorfod cael eu canslo neu eu gohirio dros y misoedd diwethaf. Mae Covid 19 wedi achosi nifer o heriau cymhleth i eglwysi a gweinidogion, ond mae hefyd wedi dwyn cyfleoedd go iawn a chyffrous i gyflawni cenhadaeth a gweinidogaeth yn wahanol. Ni fu erioed yn bwysicach creu presenoldeb ar-lein cadarnhaol, ac mae llawer o eglwysi wedi ychwanegu'n helaeth at eu gweithgarwch ar-lein, gyda llawer yn archwilio gweinidogaeth ar-lein am y tro cyntaf un.

I geisio adlewyrchu'r newid anhygoel hwn, fe gychwynnodd Athrofa Padarn Sant brosiect o'r enw 'Lleisiau', sef cyfres o bron i 30 o fideos byrion wedi'u recordio gan Gristnogion o bob cefndir ledled Cymru. Roedd cyfraniadau gan esgobion, gweinidogion lleyg ac ordeiniedig, athrawon, meddygon, myfyrwyr prifysgol, yn ogystal â rhieni a phlant. Fe wnaethant i gyd rannu eu profiadau o'r ffordd yr oedd bywyd wedi newid mewn modd ddramatig iddynt, a sut yr oedd eu ffydd wedi eu hannog a'u cynnal. Cynigiwyd cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a threfnwyd fod y fideos ar gael i'w gweld ar wefan Athrofa Padarn Sant a chawsant eu gwyllo ychydig o dan 1,500 o weithiau.

Fe wnaethom hefyd gynnal cyfres o 8 gweminar trwy'r haf a oedd yn

canolbwyntio ar gynnig cymorth ymarferol i weinidogion ac eglwysi ymgysylltu â gweinidogaeth ddigidol. Roedd y gweminarau'n cynnwys rhai o'r ffygyrau mwyaf blaenllaw mewn gweinidogaeth ddigidol yn y DU ar hyn o bryd, yn ogystal â llawer o rai eraill a rannodd eu profiadau a'u harbenigedd o bob rhan o'r Eglwys yng Nghymru, gan gwmpasu popeth o gynnal bore coffi ar Zoom, i ffrydio'n fyw a golygu fideos ar gyfer tudalen Facebook.

Cafodd yr holl weminarau eu recordio ac maent yn dal i fod ar gael i'w gwyllo ar wefan Athrofa Padarn Sant.

### ADOLYGIAD O DDATBLYGIAD GWEINIDOGION (MDR)

Mae Athrofa Padarn Sant wedi cael gorchwyl i lunio a gweithredu cynllun adolygiad o ddatblygiad gweinidogion newydd i'w ddefnyddio ar hyd a lled pob esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, gorchwyl y mae wedi'i rannu gyda Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o esgobaethau Llanelwy, Bangor a Llandaf ac yn hwyrach fe ehangodd i gynnwys y chwe esgobaeth.

Ar ôl cryn dipyn o drafod ac ymgynghori, fe gynigiwyd cynllun *hybrid* gydag adrannau taleithiol yn canolbwyntio ar fywyd gweddi'o'r gweinidog, ymgysylltiad â'r Ysgrythur, astudiaethau a dysgu, lles

a llesiant, a'u galwedigaeth yn yr Eglwys. Byddai adran hefyd yn canolbwyntio ar weinidogaeth yn yr Eglwys gyda chwestiynau'n cael eu gosod gan bob esgobaeth unigol i roi cyfrif am eu cyd-destun unigryw hwy eu hunain, gweinidogaethau cydweithredol a gweithio fel tîm. Byddai nodau ac amcanion yn cael eu gosod hefyd a fyddai wedyn yn sail i fyfyrion yn adolygiad blynyddol nesaf y gweinidog.

Cynhaliwyd cynllun peilot yn Llanelwy, Bangor a Llandaf yn rhyngor yr hydref 2019 ac ar ddechrau 2020, gydag adborth llafar ac ysgrifenedig yn cael ei goladu a'i werthuso. Cafodd y cynllun ei gytuno gan Fainc yr Esgobion ym mis Chwefror, gyda chyfnod o amser wedi'i neilltuo wedyn ar gyfer ymgysylltu â'r adran Adnoddau Dynol, yr adran gyfreithiol a'r adran TG i ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu anawsterau posibl.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd Athrofa Padarn Sant hefyd yn awyddus i baratoi pecyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i esgobaethau ei ddefnyddio, yn ogystal ag adnoddau hyfforddi ar gyfer adolygyr posibl. Penodwyd 3D Coaching i hwylusor hyfforddiant hwn ar ran Athrofa Padarn Sant.

Rhagwelir y bydd unrhyw waith gweddilliol yn cael ei gwblhau mewn pryd i alluogi'r Grŵp Llywio i argymhell yn ffurfiol bod y cynllun yn cael ei fabwysiadu gan Fainc yr Esgobion yn ei chyfarfod ym mis Hydref 2020, gan fod ar gael i esgobaethau ei ddefnyddio o fis Ionawr 2021.

## DIGWYDDIADAU BYWYD

Mae'r fenter Life Events wedi hen ennill ei phlwyf yn Eglwys Loegr ers nifer o flynyddoedd yn dilyn ymchwil sylweddol i'r modd y mae'r eglwys yn rhyngweithio â'r gymuned leol trwy briodasau, angladdau a bedyddiadau. Mae hefyd wedi llunio catalog helaeth o adnoddau o ansawdd ar gyfer eglwys lleol, yn ogystal â gwefannau sy'n cynnig help, cefnogaeth a syniadau ychwanegol.

Yn dilyn cytundeb rhwng Athrofa Padarn Sant ac Eglwys Loegr i gyfeithu a chyd-destunoli eu hadnoddau ysgrifenedig ac ar-lein, ac i drefnu eu bod ar gael i'w defnyddio yn yr Eglwys yng Nghymru, a chael cefnogaeth i hynny gan Fainc yr Esgobion, fe siaradodd Dr Sandra Millar, pennaeth Tim Life Events Eglwys Loegr, gyda'r Corff Llywodraethu ym mis Medi 2019 ac fe roddodd y Corff Llywodraethu gymeradwyaeth bellach i'r fenter.

Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau esgobaethol a thaleithiol ar gyfer haf a hydref

2020 i gyflwyno Digwyddiadau Bywyd ledled y dalaith, ond yn dilyn yr achos o Covid 19, gohiriwyd y digwyddiadau hyn gyda'r gobaith y bydd y broses o'i gyflwyno'n gallu digwydd yng ngwanwyn 2021.

## Y WEINIDOGAETH DARLLENWYR A GWEINIDOGION LLEYG TRWYDDEDIG ERAILL

Mae'r berthynas â'r Cyngor Darllenwyr Canolog (CRC) wedi parhau i ddatblygu a chryfhau. Dros y flwyddyn ddiwethaf fe lansiodd y Cyngor Darllenwyr Canolog gyfres o adnoddau hyfforddi ardderchog ar gyfer Darllenwyr a'r rhai sy'n perthyn o dan ymbarél ehangach Gweinidogion Lleyg Trwyddedig (LLM). Mae'r prosiect hyfforddi 'Trawsnewid Gweinidogaeth' yn seiliedig ar ddogfen strategol y Cyngor Darllenwyr Canolog sy'n dwyn y teitl 'Resourcing Sunday to Saturday Faith'. Yn dilyn ymgynghori â'r Cyngor Darllenwyr Canolog, mae'r ddogfen wedi cael ei chyd-destunoli a'i haddasu i gyd-destun yr Eglwys yng Nghymru. Trefnwyd fod copïau ar gael i'r holl Ddarllenwyr/Gweinidogion Lleyg Trwyddedig ledled y dalaith mewn fformat dwyieithog.

Cafodd y Gynhadledd Genedlaethol flynyddol a oedd yn yr arfaeth ar gyfer mis Gorffennaf 2020 ei chanslo oherwydd COVID-19, ond yn ei lle bwriedir cynnal cyfres o ddigwyddiadau esgobaethol ar gyfer Darllenwyr/Gweinidogion Lleyg Trwyddedig yn yr hydref pan fydd yr Esgob Cherry (Esgob y Weinidogaeth) yn cynnig neges drwy fideo a Ruth Haldane, Rheolwr Prosiect ar gyfer Trawsnewid Gweinidogaeth, yn arwain gweithgaredd trafod ac addysgu ynghylch gweinidogaeth leyg, ac yn amlygu'r adnoddau hyfforddi a datblygu sydd ar gael trwy Trawsnewid Gweinidogaeth.

## CYFEIRIAD YSBRYDOL

Dechreuodd y cwrs cyfeiriad ysbrydol taleithiol ym mis Gorffennaf 2020, gan gael ei hwyluso ar ran Athrofa Padarn Sant gan Dr Julia Mourant, Tiwtor mewn Ffuriant Ysbrydol ac Astudiaethau Beiblaidd yng Ngholeg Sarum, ac Ellen Farmer, cyd-gyfarwyddwr yn y Tŷ Gwedd i Nwyrain Molesey. Mae Ellen hefyd yn diwtor ar y cwrs Ysbrydolrwydd Ignatiaidd yn Llundain. Fe'u cynorthwywyd gan y Parch Jane Butler a Jenny Barrow sydd ill dwy wedi'u lleoli yn yr Eglwys yng Nghymru.

Oherwydd natur y cwrs, penderfynwyd na ddylai nifer y cyfranogwyr fod yn fwy na 18. Fel y digwyddodd, roedd gorâl sylweddol gyda phroses ymgeisio ysgrifenedig a chyfres o gyfweiliadau'n pennu'r modd y dosbarthwyd y 18 lle.

Mae'r cwrs yn 12 mis o hyd gyda gwaith darllen ac aseiniadau'n cael eu gosod yn ychwanegol at gyfres o 3 chyfnod preswyl sy'n para 6 diwrnod yr un. Roedd y cyntaf o'r cyfnodau preswyl i fod i gael ei gynnal yn Athrofa Padarn Sant ym mis Gorffennaf, ond bu'n rhaid symud hwn ar-lein oherwydd COVID-19. Yn naturiol, fe arweiniodd hyn at beth wmbredd o waith ychwanegol, ond mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Rydym yn gobeithio gallu cynnal yr ail gyfnod preswyl yn Athrofa Padarn Sant fel y bwriadwyd ym mis Chwefror 2021, gyda'r trydydd cyfnod preswyl, sef yr olaf, yn yr arfaeth ar gyfer mis Gorffennaf 2021.

Nid yw'r cwrs wedi'i achredu, ond bydd tystysgrif presenoldeb a chwblhau aseiniadau'n llwyddiannus yn cael ei darparu ar ei ddiwedd. Y gobaith yw y bydd y rhai sy'n cwblhau'r cwrs yn cynnig eu hunain i esgobaethau i ychwanegu ymhellach at y gronfa bresennol o gyfarwyddwyr ysbrydol ledled y dalaith.

## COFRESTRU PRIODASAU

Yn dilyn cyflwyno Deddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru ac ati) 2019, cafodd Athrofa Padarn Sant orchwyl i drefnu cyfres o ddigwyddiadau esgobaethol i alluogi Swyddfa'r Cofrestrwydd Cyffredinol (GRO) i gyfarwyddo gweinidogion â'r gweithdrefnau newydd ar gyfer cofnodi priodasau. Roedd y chwe digwyddiad esgobaethol i fod i gael eu cynnal ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019, ac roedd tri o'r rhain eisoes wedi cael eu cynnal pan alwyd etholiad cyffredinol gan achosi i'r tri a oedd yn weddill gael eu canslo ar unwaith.

Y ddealltwriaeth ar hyn o bryd yw y gallai rhai o'r gweithdrefnau gael eu diwygio, ond y bydd Swyddfa'r Cofrestrwydd Cyffredinol yn ymgysylltu o'r newydd unwaith y bydd dyddiad ar gyfer eu rhoi ar waith yn hysbys.

## EDRYCH TUAR DYFODOL

Yn amodol ar ei fabwysiadu gan Fainc yr Esgobion ym mis Hydref, bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod y cynllun Adolygiad o Ddatblygiad Gweinidogion newydd ar gael i'w ddefnyddio ledled y dalaith o fis Ionawr 2021.

Bydd yn rhaid aros i weld a fydd COVID-19 yn effeithio ymhellach ar y cynlluniau i gyflwyno'r fenter Digwyddiadau Bywyd sydd bellach wedi'u gohirio tan wanwyn 2021, neu yn wir y ddau gyfnod preswyl sy'n weddill ac yn yr arfaeth ar gyfer y cwrs Cyfeiriad Ysbrydol.

Gobeithir y bydd yr adnoddau Trawsnewid Gweinidogaeth yn parhau i esblygu



gan ein galluogi i gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwell i Ddarllenwyr a Gweinidogion Trwyddedig Lleyg eraill ledled y Dalaith yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae cynlluniau ar waith hefyd i barhau i gynnig cymorth ac adnoddau i helpu eglwysi i dyfu eu gweinidogaethau ar-lein a digidol. Mae gweminarau pellach yn cael eu cynllunio'n barod ar gyfer yr hydref i helpu eglwysi i ailfeddwl sut y maent yn nodi ac yn dathlu dyddiadau allweddol yn y flwyddyn Gristnogol megis y Cynhaeaf, Sul y Cofio, yr Adfent a'r Nadolig.

Beth bynnag fôr ansicrwydd yn y dyfodol, mae'n amlwg bod y ffordd y mae'r rhaglen Datblygiad Parhaus i Weinidogion yn darparu hyfforddiant ac yn rhoi cymorth ar hyd a lled yr Eglwys yng Nghymru wedi newid yn aruthrol dros y misoedd diwethaf, a bod y rhaglen yn annhebygol o ddychwelyd at ei phatrwm blaenorol. Er y bydd wastad yn well i rai cyrsiau megis y cwrs cyn ymddeol gael eu darparu wyneb yn wyneb, mae'r ymgyfarwyddo mwyfwy cyflym â thechnoleg ar-lein yn cyflwyno llawer o gyfleoedd newydd i lawer mwy o bobl gael mynediad

at adnoddau a dysgu. Er enghraifft, bydd yr hyfforddiant Adolygiad o Ddatblygiad Gweinidogion a gynnigir gan 3D Coaching yn cael ei ddarparu trwy gyfres o diwtorialau wedi'u recordio ymlaen llaw y gellir eu gwyllo unrhyw bryd trwy wefan Athrofa Padarn Sant. Mae hyn yn golygu bod pobl yn gallu ymgysylltu â dysgu mewn ffordd ac ar amser sy'n gyfleus iddynt hwy, a bod ganddynt adnodd dysgu y gallant ddychwelyd ato sawl gwaith os oes angen yn hytrach na dibynnu ar nodiadau a thafenni o un digwyddiad hyfforddi.

## Adnoddau i Feithrin Disgyblion

### DYSGU I DYFU

Fe ysgrifennwyd llyfrynau Dysgu i Dyfu alluogi a grymuso'r gymuned Gristnogol trwy ddarparu cyfres o adnoddau dwyieithog ar gyfer grwpiau bychain i hwyluso gweinidogaeth a bywyd Cristnogol mewn cyd-destun Cymreig yn bennaf. Erbyn hydref 2020 roedd teitlau'n cynnwys:

- Arwain Addoliad
- Eglwys i'r Dyfodol
- Credoau
- Gweddï'r Arglwydd
- Byw Pum Nod Cenhadaeth
- Ysgrythur Fyw
- Galwyd gan Dduw
- Yr Eglwys a Phobl Ifanc
- Ymweld Bugeiliol
- Stiwardiaeth

### BYW FEL YR IESU



Rhyddhawyd Byw Fel yr Iesu yn y cyfnod hwn hefyd. Roedd cynrychiolwr Eglwys yng Nghymru ar grŵp y Cymundeb Anglicanaidd ar gyfer Disgyblaeth Fwriadol yn golygu ei bod yn bosibl helpu i ddatblygu llyfr a fyddai'n cynnwys cyfres o astudiaethau sy'n addas ar gyfer y rhai sy'n dyheu am fywyd fel yr Iesu. Mae Byw Fel yr Iesu wedi'i rannu'n ddeuddeg adran ac mae'n addas ar gyfer astudio'r Beibl neu grwpiau bychain, er y gellid yn rhwydd ei addasu hefyd ar gyfer gwasanaethau dydd Sul. Mae hefyd yn addas ar gyfer defnydd ar-lein. Mae wedi cael ei gyfieithu i nifer o ieithoedd ar hyd a lled y Cymundeb, ond mae ein hymwneud ni wedi sicrhau bod Cymraeg yn un o'r

ieithoedd hynny. Mae copiau o'r llyfr hwn wedi cael eu dosbarthu i Gyfarwyddwyr Gweinidogaeth ym mhob esgobaeth felly gofynnwch iddynt am gopi neu set o gopiau os ydych yn dymuno defnyddio'r adnodd hwn ar gyfer grŵp bach.

### LLYFRYNNAU GWEINIDOGAETH

Yn Haf 2020 dechreuodd y gwaith gyda grŵp o gynrychiolwyr Ddarllenwyr o draws Cymru i ddatblygu llyfryn i Ddarllenwyr byddai'n datgan pwysigrwydd y weinidogaeth hon. Bydd y llyfryn hefyd yn gymorth i recriwtio Darllenwyr newydd. Bydd y llyfryn yn edrych ar:

- Beth yw Darllenydd?
- Beth maen nhw'n ei wneud?
- Sut mae dod yn un?

Bydd y llyfryn hwn yn cael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2021.

## Adnoddau Dysgu

Ym mlwyddyn academaidd 2019-20 gwelwyd symudiad sylweddol ar gyfer strategaeth a darparu adnoddau dysgu Athrofa Padarn Sant. Treuliwyd cryn dipyn o amser yn symud mewn cyfeiriad digidol ac fe wnaeth presenoldeb y pandemig ganolbwyntio meddyliau ar hynny. Cynhaliwyd archwiliad o adnoddau ffisegol a digidol Athrofa Padarn Sant ac fe ddechreuodd y gwaith o gael gwared ar fersiynau dyblyg diangen, yn ogystal ag adnoddau a oedd wedi dyddio ac a oedd yn amherthnasol, a hefyd y gwaith o roi cymorth digidol i bob maes. I'r perwylion hynny, fe gyflawnom ni'r canlynol:

### SYMUD MEWN CYFEIRIAD DIGIDOL

- Ail-lunio cynllun a strwythur safle Moodle Athrofa Padarn Sant, i wneud adrannau diangen yn segur, ac i symleiddio mynediad at adnoddau ar-lein, ac ehangu ein galluoedd i gynnwys cyfleusterau hunangofrestru ac ymrestru ar gyfer ein cyrsiau.
- Cynyddu ein casgliadau e-adnoddau mewn perthynas â'n daliadau ffisegol
- Trwy ystyriaeth ofalus, fe luniom ni weledigaeth a strategaeth ar gyfer ble y mae Athrofa Padarn Sant yn symud, o ran ein Hamgylchedd Dysgu Rhithwir

ac e-Ddysgu ehangach. Fe wnaeth hyn, yn ei dro, ddarparu fframwaith ar gyfer caffael a gosod stiwdio adnoddau dysgu, i hwyluso adnoddau digidol ar gyfer Athrofa Padarn Sant sydd wedi'u datblygu gennym ni ein hunain.

- Darparu seilwaith ar gyfer gweithio a dysgu o bell yn Athrofa Padarn Sant trwy roi cymorth ac integreiddio trwyddedau Zoom ac MS Teams.
- Datblygu (yn gydweithredol) y broses o osod adnoddau gweinidogaeth ar y wefan.
- Datblygu (yn gydweithredol) y Cwrs

Ymwybyddiaeth o Ddiogelu.

- Datblygu (yn gydweithredol) ein Capel Rhithwir.
- Fe wnaethom dreialu modiwlau B.Th. seiliedig ar fideo, o ran cynnwys craidd, yn ogystal â Sadyrnau Seminarau a Chanol Tymor.
- Gwella ein system adborth ar gyfer modiwlau B.Th., trwy dreialu darparwr trydydd parti, gan ein galluogi i gael dadansoddiad lefel uwch o'r adborth.

#### ARCHWILIAD O ADNODDAU DIGIDOL A FFISEGOL

- Fe wnaethom amlygu'r e-adnoddau mwyaf defnyddiol ar ein Hamgylchedd Dysgu Rhithwir, ac fe wnaethom werthuso'r angen am y rhai nad oeddent yn cael eu defnyddio ddigon.
- Fe wnaethom weithio gyda'r Hwb Dyfarniadau Cyffredin i sicrhau mynediad at nifer fawr o adnoddau electronig newydd, yng ngoleuni ceisiadau gan staff tiwtora Athrofa Padarn Sant.

- Fe wnaethom barhau i gaffael e-Lyfrau (a thrwyddedau penodol ar eu cyfer) mewn perthynas â cheisiadau gan staff tiwtora.



## Rhwydweithiau Cenedlaethol

**Mae'n fraint gan Athrofa Padarn Sant gefnogi tri rhwydwaith cenedlaethol cyffrous a phwysig:**

### Y RHWYDWAITH ARLOESI

Y Grŵp Taleithiol ar gyfer Efyngliaeth, Arloesi a Thwf yr Eglwys dan arweinyddiaeth Esgob Bangor sy'n arwain y maes pwysig hwn ym mywyd yr Eglwys. Mae hyn yn dylanwadu ar sawl agwedd ar Athrofa Padarn Sant, wrth i ni geisio sicrhau bod ein holl raglenni dysgu yn gyson ag anghenion yr Eglwys yn y dyfodol o ran ei chenhadaeth yn ein gwlad. Fodd bynnag, mae gennym gyfraniad penodol ym maes Gweinidogaeth Arloesol.

Yn greiddiol i hyn mae 'cynnull' y gymuned arloesi. Gan gydweithio'n agos gyda'r Grŵp Llywio Arloesi, rydym yn dwyn ynghyd y bobl hynny o bob rhan o'r Eglwys sy'n eu hystyried eu hunain yn arloeswyr, neu sy'n ymgysylltu â rhai agweddau ar weinidogaeth arloesi. Mae'r rhwydweithio

hwn yn rhoi cyfle i bobl fod gydag eraill sy'n meddwl mewn ffordd debyg ac a allai fod yn archwilio materion tebyg, i rwydweithio a dod o hyd i gymorth. Trwy gyfarfodydd, diwrnodau hyfforddi a chynadleddau achlysurol, mae hefyd yn helpu i ddatblygu diwinyddiaeth arloesi yng Nghymru, ac yn codi ymwybyddiaeth o Weinidogaeth Arloesol a datblygu diwylliant Arloesi o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Yn ogystal â chefnogi Arloeswyr eu hunain, rydym yn trefnu cyfleoedd i aelodau o dimau Esgobaethol ddysgu am Weinidogaeth Arloesol a'i thrafod, a meddwl sut i gefnogi'r math hwn o weinidogaeth.

Cam allweddol eleni fu cymeradwyo'r 'Fframwaith ar gyfer Tyfu Gweinidogaeth Arloesi' gan Fainc yr Esgobion. Roedd hwn yn dwyn ynghyd y data ynghylch y symiau sylweddol o waith arloesi sy'n digwydd yn ein plwyfi a'n hardaloedd cenhadaeth/gweinidogaeth, ac yn ei osod yng nghyd-destun ein ffordd o feddwl yn ddiwinyddol a'r profiad o fannau eraill, ac

yn amlinellu trywydd ar gyfer cynnydd mewn tri maes: hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg mewn gweinidogaeth arloesol, cymuned a chefnogaeth arloesol, a hybu galwedigaethau arloesol. Yn arbennig roedd yn amlinellu sut yr oedd ar yr Eglwys angen arloesi eang, llawer o weinidogaeth arloesi a rhai gweinidogion arloesol.

Ochr yn ochr â hyn mae Athrofa Padarn Sant yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu cyflwyno i ethos arloesi a'u bod yn deall natur newidiol cenhadaeth a gweinidogaeth. Mae modiwlau craidd yn y rhaglen B.Th. ym mynd i'r afael â hyn, ceir ymgysylltiad trwy'r cyfnodau preswyl o fewn hyfforddiant cychwynnol, ac ar gyfer gweinidogion trwyddedig newydd. Mae integreiddio rhwng cynnull y gymuned arloesi a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weinidogion yn sicrhau bod arfer cyfredol yn llunio hyfforddiant, a bod y rhai sydd wrthi'n hyfforddi'n cysylltu'n rhwydd â'r rhwydwaith ehangach o arloeswyr.

## RHWYDWAITH GWEITHWYR PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

Mae Athrofa Padarn Sant yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a theuluoedd ledled Cymru. Mae'n cyflawni'r rôl hon yn y ffyrdd canlynol:

- Cydweithio a rhwydweithio gyda phobl allweddol ledled y dalaith, gan gynnwys Swyddogion Esgobaethol Plant/Pobl Ifanc/Teuluoedd, Cyfarwyddwyr Addysg Taleithiol ac Esgobaethol ac, wrth gwrs, Esgob Llandaf sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am weinidogaeth yn y maes hwn.
- Gweithio gydag ysgolion, plant, gweithwyr ieuencid a gweithwyr teuluoedd i ddarparu digwyddiadau hyfforddi i helpu i alluogi a grymuso'r rhai hynny sy'n gweithio yn y maes hwn.
- Darparu adnoddau ar gyfer yr Esgobaethau trwy eu cyfeirio at

ddigwyddiadau o ansawdd uchel y gellir eu rhedeg ledled Cymru, y mae enghreifftiau diweddar ohonynt yn cynnwys Carolau yn yr Eglwysi Cadeiriol a'r Parti Mawr.

## RHWYDWAITH CENHADAETH CYFRWNG CYMRAEG

Fe ddarparodd y Corff Cynrychioliadol fuddsoddiad ar ddiwedd 2019 i alluogi aelod o staff rhan-amser yn Athrofa Padarn Sant i ganolbwyntio ar ysgogi a chefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn amlwg, rhaid i genhadaeth a gweinidogaeth yn y Gymraeg fod yn rhan ganolog o'n bywyd fel Eglwys, gan gael eu rhoi ar waith gan lawer o bobl ledled ein gwlad. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod dau angen sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Yn gyntaf, nid oedd mecanweithiau da ar gyfer rhannu arfer da ac adnoddau yn Gymraeg. O'i gymharu â'r Saesneg, mae'r 'farchnad'

ar gyfer adnoddau yn Gymraeg yn fach, felly mae'n bwysig bod yr adnoddau gwych a gaiff eu cynhyrchu yn cael eu rhannu, a bod arloesedd yn cael ei feithrin. Yn ail, bod ar nifer yn y weinidogaeth nad ydynt yn rhugl mewn Cymraeg ond sy'n ddysgwyr eisiau defnyddio'r Gymraeg yn fwy yn eu gweinidogaeth, ond bod angen anogaeth a chymorth arnynt.

Mae'r pandemig wedi taro'r gwaith dechreuol yn hyn o beth, ond mae'r rhwydwaith wedi dechrau datblygu dan arweinyddiaeth yr Esgob Andy, gan ddwyn ynghyd Swyddogion y Gymraeg ac Esgobion Cymraeg ym mhob un o'r esgobaethau, deall y gwahanol anghenion, cysylltu â chydweithwyr ecwmenaidd (megis y Cyngor Ysgolion Sul), dechrau casglu a lledaenu adnoddau, ac adnabod anghenion ar gyfer y dyfodol.



# Rhaglenni Ôl-raddedig ac Ymchwil

## M.TH. CAPLANIAETH

Mae'r rhaglen M.Th. mewn Astudiaethau Caplaniaeth yn cefnogi caplaniaid mewn swydd drwy eu hymarfer a'u gweinidogaeth. Mae'r rhaglen yn datblygu ffordd o feddwl myfyrwyr ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o elfennau damcaniaethol ac ymarferol eu gwaith caplaniaeth. Mae'r dull cyflwyno ar gyfer y cyrsiau hyn yn canolbwyntio'r holl addysg mewn pedwar bloc dwys y flwyddyn am ddwy flynedd. Maent wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion y rheiny sy'n gweithio o fewn cyd-destunau proffesiynol. Yn y rhaglen safonol, bydd myfyrwyr yn astudio tri modiwl y flwyddyn am ddwy flynedd, ac yna'n treulio cyfnod o wyth mis yn ysgrifennu traethawd hir.

Mae ein 20 mlynedd o brofiad o gyflwyno'r cwrs hwn wedi rhoi inni'r cydnherthedd angenrheidiol i wynebu heriau allanol COVID-19 a chanlyniadau mewnol cyflenwi ar gyfer swydd wag arweinydd y rhaglen. Mawr yw ein diolch i bawb a ysgwyddodd gyfrifoldebau ychwanegol ac a sicrhodd fod profiad y myfyrwyr yn dal i fod heb ei niweidio. Cafodd cyfnodau preswyl eu trosglwyddo ar-lein fel y cynlluniwyd. Rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad i greu swydd Cyfarwyddwr Astudiaethau Caplaniaeth

lawn-amser. Bydd y Parch. Ddr Julian Raffay yn dechrau ym mis Tachwedd.

Dros y flwyddyn nesaf rydym yn gobeithio cyfleu'n well yr opsiynau i fyfyrwyr ôl-raddedig ymgeisio am un flwyddyn (Tystysgrif), dwy flynedd (Diploma), neu dair blynedd (Gradd Meistr). Y gobaith yw y gallwn fanteisio ar ein profiad o addysgu ar-lein i ddiweddarau ein cwrs Dechrau Caplaniaeth pum niwmod a pharatoi cyrsiau tebyg ar y cyd â sefydliadau allanol sy'n cyflogi caplaniaid mewn sectorau amrywiol. Mae Athrofa Padarn Sant yn amcanu at feithrin cysylltiadau agosach â'n partneriaid allanol i sicrhau ein bod yn ymateb i'r sector caplaniaeth sy'n newid ac yn tyfu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein cyrsiau'n cefnogi gofynion o ran achrediad proffesiynol. Rydym hefyd yn ailfywiogi ein gwaith ymchwil ôl-raddedig i sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn cadw ac yn gwella'i bri rhyngwladol fel y lle delfrydol ar gyfer hyfforddi caplaniaid.

## M.TH. DIWINYDDIAETH

Mae'r rhaglen MTh mewn Diwinyddiaeth yn Athrofa Padarn Sant yn radd ôl-raddedig gan Brifysgol Caerdydd a ddarperir ochr yn ochr â Choleg Bedyddwyr De Cymru. A hithau'n cael ei chynnal ar un neu ddau ddiwrnod y mis yn ystod y tymor, mae'r rhaglen wedi'i

dylunio gyda bywyd prysur y rhain sy'n gweithio mewn golwg, yn bobl leyg ac yn weinidogion ordeiniedig. Mae'n darparu cydbwysedd rhwng astudio academaidd a chymhwyso ymarferol ac yn cynnig dewis o lwybrau (Astudiaethau Beiblaidd, Athrawiaeth Gristnogol, neu Ddiwinyddiaeth Ymarferol).

Mae'r rhaglen wedi parhau i ddatblygu ei pherthnasedd i'r Eglwys heddiw a chymdeithas gyfoes ac i sefydlu ôl-raddedigion fel gweithwyr proffesiynol ag ymagwedd ddifrifol a hygred tuag at eu gweinidogaeth, eu gwaith, a'u gyrfa. Fe arweiniodd pandemig Covid-19 at symud yr addysgu dros dro i blatfformau ar-lein ac



mae'r adborth gan fyfyrwyr wedi dangos bod hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus.

Mae'r niferoedd yn dal i fod yn sefydlog, gyda 10 myfyriwr wedi dechrau'r cwrs ym mis Medi 2020 (9 yn rhan-amser ac 1 yn llawn-amser) a 10 myfyriwr naill ai'n parhau ers y flwyddyn flaenorol neu'n cwblhau eu traethodau hir.

Fel y cam nesaf wrth ddatblygu'r rhaglen, bydd y rhaglen hon yn amcanu at wneud y radd Meistr yn fwy hyblyg byth o ran cynnwys a chyflwyno, gyda myfyriwr yn gallu teilwra'u hastudiaethau i weddu i'w hardal leol, eu diddordebau, neu eu cefndir. Y bwriad yw rhannu'r rhaglen yn gyfuniad o gyfnodau preswyl tri diwrnod, darpariaeth ar-lein, a chyrtsiau undydd. Bydd y strwythur newydd yn cael ei addasu i ddarparu dull sydd wedi'i wreiddio'n amlwg yn niwylliant a gweinidogaeth Cymru hefyd.

#### M.TH. PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

Cafodd yr arbenigedd MTh hwn ei lansio yn 2018 ac mae wedi datblygu'n gyflym i fod yn un o'r cymwysterau ôl-raddedig mwyaf cyffrous ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU. Yn flynyddol, mae'r siaradwyr yn cynnwys Lucy Moore (sylfaenydd Messy Church), Yvonne Morris (Cynghorydd Plant Esgobaethol Rhydychen), Rachel Turner (sylfaenydd Parenting for Faith), Gary Smith (Message Trust Wales) a Chloe Richards (Alpha Cymru), Matt Summerfield (Zeo Church, cyn-gyfarwyddwr Urban Saints). Mae cyrhaeddiad y cwrs yn ymestyn dros y DU gyfan, ac eto mae'n cyfoethogi'r Eglwys yng Nghymru. Yn wir, mae 60% o'r rhai sy'n dilyn y cwrs yn dod o esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru.

Mae'r dull cyflwyno ar gyfer yr arbenigedd hwn yn canolbwyntio'r holl addysgu mewn tri bloc dwys (o ddydd Llun i ddydd Mercher). Fe'i dyluniwyd yn benodol i ddiwallu anghenion y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a phlant. Yn y rhaglen safonol, bydd myfyriwr yn astudio tri modiwl y flwyddyn am ddwy flynedd, ac yna'n treulio blwyddyn yn ysgrifennu traethawd hir.

Mae'r nifer sylweddol o geisiadau sydd eisoes wedi dod i law ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21 yn golygu, cyn bo hir, mai'r cwrs yma fydd y darparwr mwyaf o ran Addysg Ôl-raddedig ar gyfer Gweithwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ledled y DU.


#### YMCHWIL

Mae staff Athrofa Padarn Sant yn ceisio cyfrannu at ddatblygu meddwl diwinyddol ac ymarfer gweinidogol a chenhadol yn yr Eglwys drwy eu hymchwil, eu hysgrifennu a'u siarad, a thrwy roi cyngor arbenigol (megis trwy ddefnyddio data ac ystadegau wrth lywio'r gwaith cenhadu). Mae'r sefydliad hefyd yn cynnal cynadleddau a seminarau ymchwil i gefnogi'r meddwl a'r cydweithio parhaus. Un elfen bwysig o hyn yw goruchwyllo ymchwil doethur (graddau PhD a DMin) gan feithrin y genhedlaeth nesaf o ddiwinyddion ac ennyn ymchwil ddefnyddiol. Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys y prosiectau doethur a oruchwylwyd yn 2019-20, ac maent yn rhoi syniad o'r gwaith hwn.

- Hunaniaeth yn 1 Pedr
- Caniad Solomon
- Marwolaeth a cholled – helpu plant i ymdopi
- Diwinyddiaeth Drindodaidd ac Eglwyseg

- Dehongli'r Beibl mewn cyd-destun Cymreig
- Caplaniaeth yn y Gweithle
- Tlodi a'r Efyngyl
- Galwedigaethau leuengach
- Addoli rhwng dwy genhedlaeth
- Datblygu Llwybrau Gofal fel caplan
- Patrwm Trindodaidd o Weinidogaeth ar gyfer yr Eglwys (yng Nghymru)
- Rôl chwarae wrth ymdopi â straen mewn gweinidogaeth blwyfol
- Ym mha ffyrdd mae etifeddiaeth ac arfer Cenhadaeth Ddiwydiannol/ Caplaniaeth yn y Gweithle yn trawsnewid cenadaetheg ac eglwyseg?
- Gweithredu newid o weinidogaeth blwyfol draddodiadol i rannu technegau wrth weithio mewn tîm
- Diwinyddiaeth Feiblaidd ac athrawiaethol gydlynol ar gyfer canlyn
- Caplaniaid yn y Dwyrain Pell yn ystod yr Ail Ryfel Byd – Astudiaeth mewn Cydnerthedd Ysbrydol.
- Archwilio cenhadaeth eglwys hirdymor gyda phobl ifanc a fyddai'n cael eu hystyried yn 'blant agored i niwed' yn ôl dangosyddion yr UE.

Wrth edrych tua'r dyfodol, dylai ein ffocws fod ar weithredu fel sbardun a man cwrdd ar gyfer y meddwl diwinyddol a'r ymchwil ddiwinyddol sy'n digwydd mewn gwahanol fannau ar hyd a lled yr Eglwys yng Nghymru, gan ychwanegu gwerth trwy gysylltu hyn â meddwl ehangach a hybu a meithrin ymchwil ac ysgolheictod ar wahân i raddau ôl-raddedig.



# Hyfforddiant Diogelu

Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Wrth galon eglwys ddiogel mae sefydlu diogelu ar bob lefel yng ngweithgarwch yr eglwys. Yn wir, yn Athrofa Padarn Sant mae gennym slogan, 'Eglwys ddiogel yw Eglwys Crist' – os nad yw cymuned yn ddiogel i bobl ifanc neu bobl agored i niwed yna, beth bynnag y bydd yn dymuno'i ddweud amdani'i hun, nid yw'n perthyn i Grist; ni all honni bod yn Eglwys.

Felly mae diogelu wrth galon sefydliad hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru, Athrofa Padarn Sant, hefyd. Mae dwy agwedd i hyn sy'n cydbblethu â'i gilydd. Y gyntaf yw bod diogelu'n rhan o ddiwylliant a chyd-destun yr holl hyfforddiant ac addysg y mae Athrofa Padarn Sant yn ymgymryd â hwy. Rydym wrthi'n brysur yn sicrhau nad 'ychwanegiad' at addysg weinidogol yw diogelu: mae meddwl am ddiogelu a'i roi ar waith yn gymaint o ran o ffocws staff a dysgwyr ag unrhyw ddisgyblaeth arall. Mae a wnelo â'r Duw yr ydym yn ei wasanaethu a'r cymunedau yr ydym yn eu creu.

14

Ochr yn ochr â hyn rydym yn darparu hyfforddiant diogelu ar gyfer sefydliad ehangach yr Eglwys yng Nghymru. Caiff hyn ei gydgysylltu'n agos â gwaith y tîm diogelu sy'n canolbwyntio ar bolisi a gwaith achosion, ac fe'i goruchwylir gan Bwyllgor Pobl y Corff Cynrychiolwyr. Wrth i'r Eglwys yng Nghymru wella yn y maes hwn, rydym yn symud tuag at fap cynhwysfawr o wahanol fathau o hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n cyflawni gwahanol rolau yn yr eglwys. Caiff y map a'r lefelau hyfforddiant eu pennu gan y gweithiwr diogelu proffesiynol; ein cyfran ni o'r gwaith yw sicrhau bod yr hyfforddiant o ansawdd uchel yn dilyn. Mae hyn i gyd yn cydbblethu â'r gronfa ddata diogelu newydd sydd ar ddod, a fydd yn sicrhau bod pawb sy'n cyflawni gwahanol rolau ar hyd a lled ein heglwys yn cael yr hyfforddiant diweddaraf cywir.

Mae'n anrffod bod y pandemig wedi taro cyflymder, cynnydd a fformat hyfforddiant. Mewn un ystyr fe wnaeth i'r buddsoddiad mewn cwrs ymwybyddiaeth o ddiogelu seiliedig-ar-fideo ar-lein ymddangos yn rhagweledol. Nid 'hyfforddiant diogelu'

i bobl sy'n gweithio gyda phobl ifanc neu oedolion agored i niwed yw hwn, ond yn hytrach cwrs ar-lein hygyrch i bawb. Codi ymwybyddiaeth ar hyd a lled ein heglwys. Mae'r fersiwn beta o hwn yn rhedeg yn dda; mae gwelliannau allweddol i hygyrchedd a gwaith i gynhyrchu fersiwn cyfrwng Cymraeg yn yr arfaeth. Fe symudodd y prif gwrs i 'weinidogion' (lleyg, ordeiniedig, a phawb â rolau penodol gyda phobl ifanc neu oedolion agored i niwed) ar Zoom ym mis Mawrth. Ar ôl rhywfaint o amhariad cychwynnol, mae hyn wedi dechrau gweithio'n dda. Yn amlwg mae rhywbeth yn cael ei gollu heb ddarpariaeth wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'r diffyg teithio wedi bod o fudd i lawer, mae wedi ei gwneud yn bosibl rhannu'r hyfforddiant yn ddwy sesiwn fyrrach sy'n ddewis gwell o safbwynt addysgol nag un sesiwn anferthol, ac mae wedi galluogi pobl ar hyd a lles yr eglwys gyfan i ddysgu gyda'i gilydd gydag ystod dda o ddyddiadau pan fo pawb ar gael, yn hytrach na bod daearyddiaeth yn creu cyfyngiadau o ran pwy all fod yn bresennol ar gyfer beth.

## Polisi Gweinidogaeth a Datblygiadau

**Rhan o rôl Athrofa Padarn Sant yw hwyluso ac ysgogi meddwl yn yr Eglwys yng Nghymru am ddiwinyddiaeth, cenhadaeth a gweinidogaeth, ac felly'r polisïau a'r strwythurau o fewn yr eglwys i gefnogi'r weinidogaeth. Mae rôl benodol i Athrofa Padarn Sant o ran cynorthwyo'r Esgob gyda'r Portffolio Gweinidogaeth.**

Yn y maes hwn roedd 2019-2020 yn gyfnod pontio, gyda llai o weithgarwch yn rhan gyntaf y flwyddyn, ac yna'r Esgob Cherry yn ymgymryd â'r Portffolio Gweinidogaeth ym mis Mawrth. Fe aeth sawl darn o waith yn ei flaen, serch hynny. Cytunwyd ar y Fframwaith Arloesi, a amlygir ar dudalen 21, ac felly hefyd ffordd newydd ymlaen i Athrofa Padarn Sant gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 22). Roeddem hefyd yn gallu dwyn agweddau ar y cymorth ar gyfer Darllenwyr ar hyd a lled y dalaith ynghyd, gan symleiddio a hwyluso'r

berthynas â'r Cyngor Darllenwyr Canolog, gan sicrhau bod yr holl Ddarllenwyr yng Nghymru'n cael mynediad at yr adnoddau gwych (gweler tudalen 15).

Un agwedd ddiddorol ar y gwaith hwn yw'r cydbwysedd rhwng undod ac amrywiaeth rhwng ein hesgobaethau. O fewn esgobaeth gall dull ymddangos yn glir, ond pan gaiff ei gymharu â'r dulliau gwahanol yn y pum esgobaeth arall, gall yr Eglwys yng Nghymru ymddangos yn llai cydlynus. Mae hwn yn gydbwysedd anodd gan bod gan esgobaethau gyd-destunau a strategaethau gwahanol; ni fydd unffurfiaeth yn helpu neb. Fodd bynnag, mae'n werth chwilio am gyseindedd. Y rheswm yn rhannol yw er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Eglwys yn cael eu defnyddio'n dda (nid ydym yn dyfeisio chwe olwyn debyg iawn). Hefyd, weithiau gall gwahaniaethau fod yn annymunol pan edrychir arnynt o safbwynt yr Eglwys yng Nghymru. A yw'n briodol y byddai'r un unigolyn yn

hyfforddi am fwy neu am lai o amser gan ddibynnu ym mha esgobaeth y mae? Un maes lle gwelwyd cynnydd eleni yw datblygu ffurflen a phroses i roi cymorth i ddyrannu curadiaethau, fel bod gan bawb sy'n hyfforddi ar gyfer ordeiniad ymdeimlad clir o ddisgwyliadau priodol o ran y broses ciwradiaeth, bod cyfathrebu o ansawdd da'n digwydd rhwng yr ordinand a'r esgobaeth, ac nad yw gwahaniaeth rhwng esgobaethau (e.e. o ran amseriad penderfyniadau ynglŷn â churadiaeth) yn achosi trallod pan fo'r gymuned ordinandiaid yn un glòs gyda phobl o bob esgobaeth.

# Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Roedd 2019 – 2020 yn flwyddyn o ddau hanner. Neilltuwyd cryn dipyn o'n hamser a'n sylw yn hanner cyntaf y flwyddyn i weithio tuag at adolygiad cyntaf Athrofa Padarn Sant gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA). Mae'r adolygiad hwn yn asesu sut y mae darparwyr addysg yn cynnal eu safonau a'u hansawdd academiaidd.


Roedd rhan gyntaf yr adolygiad yn cynnwys dau adroddiad, y naill wedi'i ysgrifennu gan gorff y myfyrwyr a'r llall gan y sefydliad. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r myfyrwyr a ymgwyrodd â'r dasg o gasglu adborth

ac ysgrifennu adolygiad y myfyrwyr. Yn yr adroddiad gan y sefydliad rhaid i ddarparwr addysg uwch amlinellu a darparu tystiolaeth i ddangos sut y mae'n cyrraedd yr holl safonau ansawdd ar gyfer addysg uwch. Mae'r rhain yn cynnwys safonau ar gyfer y rhaglenni eu hunain, safonau i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg ac ar gyfer sefydliadau yng Nghymru bod y safonau ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn cael eu cyrraedd. Roedd hwn yn gorff enfawr o waith, a gyflwynwyd gydag oddeutu 100 o ddarnau o dystiolaeth ategol. Cynhaliwyd ail ran yr adolygiad, sef yr arolygiad gan aseswyr QAA, ym mis Mawrth, yn union

cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Roddem wrth ein bodd nid yn unig bod yr asiantaeth wedi canfod bod Athrofa Padarn Sant wedi cyrraedd y safonau gofynnol, ond bod yr arolygwyr heb argymhell unrhyw feysydd oedd angen gwelliant. Nid bod Athrofa Padarn Sant yn bwriadu llaesu dwylo; mae arnom wastad eisiau gwella a datblygu er mwyn gwasanaethu'r eglwys yn well.

O safbwynt gweithredol, dominyddwyd ail hanner y flwyddyn gan COVID-19. Bu'n rhaid rhoi'r gorau i addysgu wyneb yn wyneb ganol mis Mawrth a bu'n rhaid ymateb i her symud popeth ar-lein, ar yr ochr addysg a'r

## Incwm a Gwariant



Gwariant ar y Cyfan = £2,388,437 Incwm ar y Cyfan = £195,060

### Nodiadau:

Mae Gwariant ar y Cyfan wedi cynyddu o'i gymharu â 2018-19, yn bennaf am mai hon oedd y flwyddyn lawn gyntaf lle'r oedd Hyfforddiant Diogelu a Chenhadaeth Cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yng nghyllideb Athrofa Padarn Sant.

Costau Staff	Mae'r rhain yn cynnwys yr holl gostau staff (Y Pennaeth, Staff Tiwtora, Gweinyddol, Arlwy, Cadw Tŷ a Chynnal a Chadw).
Costau Craidd	Mae'r rhain yn cynnwys costau cyhoeddusurwydd, cyfieithu i'r Gymraeg a swyddfeydd.
Cost Safleoedd a Lleoliadau	Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw safle Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd yn ogystal â chostau llogi cyfleusterau y tu allan i Gaerdydd ar gyfer Hyfforddiant Diogelu, Hyfforddiant Gweinidogion Trwyddedig Newydd a Digwyddiadau Datblygu'r Weiniogogaeth. Mae'r costau hyn yn is na'r llynedd gan bod yr holl addysgu ar gyfer y tymor olaf wedi gorfod digwydd ar-lein oherwydd COVID-19.
Costau Adnoddau	Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau ffisegol ac ar-lein
Costau prifysgol a rhaglenni	Mae'r rhain yn cynnwys costau dilysu, a chostau addysgu arbenigol allanolIncome
Incwm	Mae hyn yn bennaf yn cynnwys ffoedd cyrsiau ar gyfer astudio ôl-raddedig, ac fe arweiniodd cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr at gynnydd mewn incwm o 10%.

ochr gweithrediadau. Fel pawb arall, gorfu i'n dysgwyr a staff wneud aberthau. Roedd yn destun tristwch mawr peidio â pharhau â digwyddiadau gwerthfawr fel cynnodau preswyl y Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a Gweinidogion Trwyddedig Newydd wyneb yn wyneb. Roedd yn teimlo, cyn gynted ag y byddem wedi gwneud un cynllun, bod y cyfyngiadau'n newid a ninnau'n gorfod gwneud cynllun arall. Bu'n rhaid i staff a dysgwyr ymdopi â gweithio/dysgu ar-lein, gartref, yn aml gan orfod addysgu eu plant gartref hefyd. Fodd bynnag, fe ymatebodd staff a dysgwyr yn anhygoel o dda i'r heriau. Rhoddwyd mesurau diogelwch llym ar waith ar gyfer yr ychydig bach o waith yr oedd yn rhaid iddo ddigwydd ar y safle yng Nghaerdydd, gan sicrhau ei fod yn lle diogel i staff a'r bobl hynny y mae'r safle'n gartref iddynt. Fe addasodd pobl yn gyflym i gyfarfodydd, addysgu ac addoli ar-lein. Roedd y ffaith bod cymuned Athrofa Padarn Sant wedi'i gwasgaru ledled Cymru'n golygu, i ryw

raddau, bod gennym ryw faint o brofiad o weithio o bell, a oedd o gymorth. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2020 – 2021 yn dal i fod yn ansicr, ond byddwn yn parhau i sicrhau bod dysgwyr a staff yn ddiogel, a bod safonau uchel yn cael eu cynnal.

#### STAFFIO

Llawn-amser	Llawn-amser	Cyfanswm	CagAll
22	16	38	27

Yn ogystal â'r Pennaeth, roedd Athrofa Padarn Sant yn cyflogi 9 aelod o staff tiwtora llawn-amser ac 8 rhan-amser (13.7 cyferth ag amser llawn). Yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm tiwtora mae Llyfrgellydd a Chynorthwydd Technoleg Dysgu (1.5 cyferth ag amser llawn). Defnyddir tiwtoriaid cyswllt i roi darpariaeth addysgu arbenigol, er enghraifft arbenigwyr milwrol ar y rhaglen Caplaniaeth. Cyflogir 11 aelod o staff llawn-amser a 7 rhan-amser (12.8 cyferth ag amser llawn) ym maes cymorth

rhaglenni ac i redeg y safle yng Nghaerdydd, e.e. yn y gwasanaethau gweinyddol, arlwy, cadw tŷ a chynnal a chadw.

Trwy gydol y flwyddyn bu nifer o ddatblygiadau o ran staffio. Ar ddechrau mis Medi fe ymgymrodd un tiwtor â rôl goruchwylio Technoleg Dysgu i sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn defnyddio technoleg ddigidol i wella'r dysgu. Daeth hwn yn newid mwy strategol nag y gallm fod wedi'i ragweld, oherwydd erbyn canol mis Mawrth roedd yr holl ddysgu'n digwydd yn ddigidol o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd un swydd tiwtora ac un swydd cadw tŷ yn wag o fewn y tîm. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 1.5 swydd wag bellach yn y tîm tiwtora. Ym mis Mawrth, pan gafodd safle Caerdydd ei gau oherwydd y pandemig, cafodd yr holl staff arlwy a chadw tŷ eu rhoi ar ffyrlo. Dychwelodd un aelod o'r staff cadw tŷ yn yr haf i sicrhau bod y safle'n dal i fod yn lân ar gyfer y nifer fach o staff oedd yn ei ddefnyddio.

## I mewn i 2020-2021

16

**Yn anffodus, mae unrhyw olwg ymlaen at flwyddyn academaidd 2020-2021 yn dal i gael ei dominyddu gan bandemig COVID-19. Er bod y cynnydd tuag at 'godir cyfyngiadau' yn ansicr, mae'n ymddangos yn glir bod rhaid i ni gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021 gan gymryd y bydd yn dra gwahanol i'r arfer, ac y bydd yn sylfaenol yn un heb unrhyw ymgysylltu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn wir nid dim ond ar gyfer ein gweithgareddau dysgu, ond hefyd ar gyfer y tîm o staff, gyda llawer yn parhau i geisio cyflawni eu swydd yn dda tra'u bod yn gweithio gartref, mewn amodau sydd ymhell o fod yn ddelfrydol, a hwythau'n aml yn addysgu eu plant gartref hefyd.**

Daw nifer o themâu i'r amlwg wrth i ni edrych tuag at y dyfodol. Bydd Athrofa Padarn Sant yn parhau i fuddsoddi mewn adnoddau a thechnoleg dysgu ar-lein ac o bell. Roedd hyn eisoes wedi cael ei amlgygu fel trywydd i'w ddilyn yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, ymhell cyn COVID-19. Mae'r posibiladau yma'n sylweddol, gan gynnig manteision addysgol ac amgylcheddol, ond mae'n faes cymhleth i lywio drwyddo'n dda (ceir llawer na ellir ei wneid ar-lein) ac mae'n galw am ddatblygiad parhaus ar gyfer staff. Bydd ein gwaith o ran adnoddau a rhwydweithio'n parhau i ddatblygu hefyd – cenhadaeth cyfrwng Cymraeg, arloesi, gweithwyr

plant, pobl ifanc a theuluoedd, ac i gefnogi datblygiad gweinidogol parhaus gweinidogion lleyg ac ordeiniedig.

Mae pwysau ariannol penodol ar yr Eglwys ar hyn o bryd hefyd, ac mae cyllidebau Athrofa Padarn Sant yn y dyfodol yn dynn fel y gellir deall. Mae'r Eglwys yn parhau i fuddsoddi yn y dyfodol trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad yn Athrofa Padarn Sant, ond yn yr hinsawdd sydd ohoni rhaid i ni fod â ffocws mwy pendant byth ar gael gwerth am arian i'r Eglwys; sicrhau bod yr arian yn mynd mor bell â phosibl yn y tymor hir. Bydd hyn yn galw am feddwl yn greadigol, ar sail diwinyddiaeth ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac am onestrwydd wrth asesu beth yw 'y norm' yn ein tyb ni. Ni fydd bywyd yr un fath ar ôl y pandemig. Fel sefydliad diwinyddol a sefydliad hyfforddi, mae angen i Athrofa Padarn Sant fod ar flaen y gad o ran 'llunio'r dyfodol.

Ochr yn ochr â hyn, bydd 2020-2021 yn dod â newid o ran y partner prifysgol sy'n rhan o'n cyrsiau ôl-raddedig. Fe barhaodd Athrofa Padarn Sant â'r cysylltiad â Phrifysgol Caerdydd ar gyfer ei chyrtsiau ôl-raddedig a oedd wedi cael ei sefydlu ddegawdau cyn hynny gan Goleg San Mihangel. Fodd bynnag, yn anffodus mae Ysgol Hanes, Archeoleg a Chrefydd Prifysgol Caerdydd wedi bod trwy broses y maent hwy'n ei disgrifio fel 'ail-alinio a

datblygu'r cwricwlwm' a'u harweiniodd at y casgliad nad yw'r bartneriaeth 'yn ddichonol yn strategol' mwyach. Mewn geiriau syml, bod diwinyddiaeth Gristnogol wedi dod yn rhywbeth rhy ymylol i'r brifysgol iddynt fod â'r staff i gynnal y bartneriaeth gyda ni, ac nad yw'r bartneriaeth yn gyson â buddiannau'r brifysgol ei hun. Mae hyn yn drist, ac yn arwydd o newidiadau mewn Addysg Uwch sy'n peri pryder. Fodd bynnag, mae'n cyflwyno cyfle i ni ailystyried ein darpariaeth ôl-raddedig, a dod o hyd i bartner ymhlith prifysgolion sydd ar flaen y gad o ran meddwl diwinyddol a chenhadol. Gan gadw ein partneriaeth gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar gyfer ein rhaglenni israddedig, rydym yn debygol iawn o ddisodli ein partneriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd ag un gyda Phrifysgol Durham, un o'r sefydliadau diwinyddol mwyaf blaenllaw yn y DU. Bydd rhaglen o waith ar gyfer 2020-21 i gael hyn i ddigwydd, a chreu cyfleoedd newydd o fis Medi 2021 ymlaen.

Ond yn olaf, rhaid i ni edrych eto ar eiriau'r Archesgob yn ei anerchiad llywyddol ym mis Medi, a'i alwad ar i'r eglwys gyfan 'adnewyddu'r gân' a mabwysiadu dull hyderus o ymateb i'r cyd-destun sy'n newid yn gyflym. Mae 'Ailgodir'n gryfach' yn slogan bachog, ond rhaid mai dyma yw'r agenda ar gyfer Athrofa Padarn Sant yn 2021.